## Iawn Crist a'i Gariad

Mae rhyw fyrdd o ryfeddodau,
Iesu, yn dy farwol glwy':
Ac yn sŵn y gair Gorffennwyd
Mae trysorau fwy na mwy;
Ni all ceriwb, ni all seraff,
Byth fynegi gwerth yr Iawn
Roddaist drosom i Gyfiawnder
Ar Galfaria un prynhawn.

Pwy all fesur maint ei gariad,
A rhinweddau maith ei ras?
Nid angylion, er eu doniau,
Na holl seintiau daear las:
Môr di-drai, heb waelod iddo,
Sydd yn chwyddo byth i'r lan;
Nofia miloedd ynddo'n hyfryd
Draw i'r bywyd yn y man.

***Daniel Jones***

## Cariad Crist

Dyma gariad fel y moroedd,
Tosturiaethau fel y lli';
Tywysog bywyd pur yn marw,
Marw i brynu'n bywyd ni:
Pwy all beidio cofio amdano?
Pwy all beidio canu'i glod?
Dyma weithred nad â'n angof,
Tra fo nefoedd wen yn bod.

Ar Galfaria yr ymrwygodd
Holl ffynhonnau'r dyfnder mawr,
Torrodd holl argaeau'r nefoedd,
Oedd yn gyfain hyd yn awr:
Gras a chariad megis dilyw,
Yn ymdywallt yma 'nghyd;
A chyfiawnder pur a heddwch
Yn cusanu euog fyd!

***Gwilym Hiraethog***